Race Equality First

"Gweithio gyda chi i wireddu cydraddoldeb"

RACE EQUALITY FIRST

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

GWASANAETH EIRIOLAETH

Mae Race Equality First yn rhedeg gwasanaeth eiriolaeth i helpu pobl o gymunedau Duon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (BAME) ledled Cymru i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd hanfodol. Os ydych yn rhywun a fyddai'n elwa o'r cymorth canlynol, neu'n gofalu am rywun a hoffai gael ein cymorth, cysylltwch â Race Equality First ar y manylion isod:

APWYNTIADAU SGRINIO

Ydych chi wedi derbyn llythyr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar ynghylch mynychu apwyntiad sgrinio a hoffech ddeall beth mae'n ei olygu?

CYMORTH IAITH

Oes angen rhywun arnoch i helpu gyda chyfieithiad llafar ac ysgrifenedig? Neu i gyfathrebu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau ar eich rhan?

TREFNU APWYNTIADAU

A oes angen rhywun arnoch i'ch helpu i drefnu apwyntiadau a siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am eich iechyd a'ch lles?

LLENWI FFURFLENNI

Hoffech chi gael cymorth gan un o'n Rheolwyr Gwasanaethau Cynghori i lenwi ffurflenni a/neu wneud cais am fudd-daliadau?

CLUDIANT I APWYNTIADAU

A oes angen help arnoch i drefnu cludiant i fynychu apwyntiadau gofal iechyd a sgrinio hanfodol yn yr ysbyty?

GOFAL A LLES CYMUNEDOL

Ydych chi'n teimlo'n ynysig ac ar eich pen eich hun? Oes angen help arnoch i fyw'n annibynnol? Hoffech chi gael cymorth gan wasanaethau cyfeillio a gofal cymunedol?

RACE EQUALITY FIRST
WWW.RACEEQUALITYFIRST.ORG.UK

INFO@RACEEQUALITYFIRST.ORG.UK
029 2048 6207